


HENRY, PHILIP (1631-1696), gweinidog Presbyteriaidd a dyddiadurwr



Enw: Philip Henry
Dyddiad geni: 1631
Dyddiad marw: 1696
Plentyn: Matthew Henry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Presbyteriaidd a dyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd 24 Awst 1631 o dras Cymreig; ganwyd ei dad yn Llansawyl ym Morgannwg, mudodd i Lundain, a daeth yn warchodwr gerddi'r brenin yn Whitehall; yno daeth Philip ieuanc i gyswllt â dau fab Siarl I ac â'r archesgob Laud. Ei dad bedydd oedd **Philip, 4ydd iarll Penfro**; yn 1643 daeth yn un o ddisgyblion Busby yn Westminster; yn 1647 cyrhaeddodd Rydychen, Coleg Christ Church, gydag ysgoloriaeth. Digamsyniol Anglicanaidd oedd awyrgylich bore oes Philip Henry; er hynny, argyhoeddwyd ef o ffordd y Presbyteriaid o drefnu pethau, yn niffyg trefn esgobol ystwyth a rhyddfrydig. Ar ôl graddio yn B.A. (1651), M.A. (1652), daeth yn athro ar blant y **barnwr Puleston** yn Emral, Maelor Saesneg, ac yn bregethwr yng nghapel eglwysig Worthenbury, ym mhlwyf Bangor Iscoed; tueddwyd ef i ymuno â henaduriaeth Sir Amwythig oedd agosaf ato (Bradford North), ac ym Medi 1657 ordeiniwyd ef yn y dull Presbyteriaidd. Yn anffodus, nid oedd y dyddiau anodd hynny'n ffafriol iawn i ddatblygiad llawn y system Presbyteriaidd o weithio, ac ni welai wrthwynebiad o gwbl i ddilyn esiampl Baxter ac eraill drwy gydweithio yn wirfoddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru ag Annibynwyr, a hyd yn oed â phobl Eglwysig eu hosgo. Pan ddaeth adfer y brenin yn 1660 daeth hefyd law farw ar bob trefniadau Presbyteriaidd ac ar gweithgarwch gwirfoddol; cyn diwedd y flwyddyn 1661 yr oedd Henry wedi ei droi allan o gapel Worthenbury oherwydd Deddf 1660, y 12 Charles II c. 17 (nid o dan Ddeddf Unffurfiaeth 1662). Fel pregethwr Piwritanaidd a ddistawyd gan y gyfraith, cafodd Philip Henry ei ran o brofedigaethau Anghydfurfurwyr dyddiau'r cosbi; y mae ei ddyddiaduron yn llawn o'r ystrwyiau, rhai cymharol ddiniwed a rhai'n dibynnu ar ganfod tyllau yn y cyfreithiau, i geisio myned y ffordd arall heibio i'r 'Clarendon Code.' Daliodd yr amser caled yn ei lawn nerth hyd 1687, ar wahân i ryddid byr 1672-5. Fel Presbyteriaid egwyddorol nid oedd i Henry fawr gydymdeimlad â deklarasynau o ryddid ac amodau goddefiad; yn 1672 ni ofynnodd am drwydded i bregethu o gwbl, ond derbyniodd un i bregethu yn ei dŷ ei hun yn Broad Oak pan sicrhawyd hi iddo gan un o'i gyfeillion; am Ddeklaraswn 1687 ei farn oedd mai bwriad Duw oedd gwneud daioni drwyddo. Pan ddaeth y Goddefiad yn 1689, go anniddig oedd Henry am fod yn ofynnol iddo deithio yn bur bell am drwydded. Daeth ei fywyd trafferthus i ben ar 24 Mehefin 1696. Gedy'r *Diaries* yr argraff ei fod yn wr rhy ryw glyfar a chywrair ar faterion cydwybod, ond nid oes ddadl am safonau uchel ei fywyd - manwl a duwiolfrydig.

MATTHEW HENRY (1662 - 1714), diwinydd ac awdur

Daeth ei ail fab a aned yn Broad Oak, 18 Hydref 1662, yn enwocach yng Nghymru nag ef, oherwydd ei esboniadau ar y ddau Destament a gyhoeddwyd 1708-10, yn bum cyfrol, gan ddwyn y gwaith i lawr i ddiwedd yr efengylau; yr oedd wedi cwplâu yr Actau cyn ei farw, yn barod i'r cheched gyfrol (bu diwinyddion eraill yn gyfrifol am esbonio'r epistolau a'r Datguddiad). Cyhoeddwyd crynodeb Cymraeg o'r gwaith yng Nghaerfyrddin, 1728, a chyfieithiad llawnach mewn pedair cyfrol yn Abertawe, 1828-35. Am weithiau llai a ysgrifennwyd ganddo, cyfieithwyd amryw yn Gymraeg, rhai gan **James Davies** ('Iaco ap Dewi'). Yn y Salesbury Library, Coleg Caerdydd, ceir casgliad cyfoethog o wahanol argraffiadau ei lyfrau. Bu'n fyfyrwr mewn academïau Anghydfurfiol, ac yn aelod o Gray's Inn yn 1685. Yng Nghaerlleon, a henaduriaeth y sir honno, y cyflawnodd ei waith mawr fel awdur a phregethwr. Symudodd i Hackney yn 1712, a bu farw ar ymweliad â Nantwich, 22 Mehefin 1714.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

M. H. Lee (gol.), *Diaries and letters of Philip Henry, M.A. of Broad Oak, Flintshire, A.D. 1631-1696* (Llundain 1882)

An account of the life and death of Mr. Philip Henry minister of the Gospel, near Whitchurch in Shropshire Who dyed June 24. 1696 in the sixty fifth year of his age 1698, 59-61, am y Cymdeithasau Gwirfoddol

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654-1662* (1923), pen. viii

T. Richards, *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925), 12-9

ODNB: **Henry, Matthew (1662-1714)**

Alexander Gordon, *Freedom after ejection: a review (1690-1692) of Presbyterian and Congregational nonconformity in England and Wales* (Manchester 1917), 282

Gwilym Llynn, D. Silvan Evans (gol.), *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 350-351

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Philip Henry

Erthygl Wicipedia: Matthew Henry

Gweithiau

Jenkin Evans, Matthew Henry, *Catechism byrr i blant: at yr hwn a chwanegwyd un arall er addysc i'r rhai sydd iw derbyn a'u cymmeryd i Swpper yr Arglwydd*(Caerfyrddin 1727)

Matthew Henry, James Davies (cyfieithydd), *Catechism o'r scrythur, yn nhrefn Gwyr y Gymmanfa*(Mwythig 1717)

Matthew Henry, *Eglwys yn y tŷ: neu, Bregeth am grefydd-deuluaid*(Mwythig 1772)

Matthew Henry, Joshua Thomas (cyfieithydd), *Golwg ar Destament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist: sef crynhoad o swm a sylwedd y pethau hynny a gynnwysir ym mhob llyfr, ac ym mhob pennod wedi ei gasglu allan o esboniadau helaeth y diweddar a'r Parchedig Mr. Mathew Henry, gweinidog yr efengyl. At yr hwn y chwanegwyd tabl a'r fesur cerdd yn ol yr egwyddor A.B.C. i helpu'r cŵf ac i wneuthur i fynu goncordans bychan i'r Testament newydd* (Caerfyrddin 1728)

Delweddau

J. J. Chant, Mat: Henry

LIGC: Revd. Matthew Henry, the eminent Biblical commentator

George Vertue, Matthaes Henry V.D.M

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 268034595

VIAF: 66666524

Wikidata: Q3901458

Wikidata: Q663216

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Richards, T., (1953). HENRY, PHILIP (1631-1696), gweinidog Presbyteraidd a dyddiadurwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HENR-PHI-1631>

CC0

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION





Wladfa
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government